Ysgol Y Ddwylan
New Road
Newcastle Emlyn
Carmarthenshire
Ysgol Y Ddwylan
Sir Gar
SA38 9BA

11/02/2024

Annwyl Sion Mason – Evans

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Y Ddwylan yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag un argymhelliad o'u harolygiad craidd yn Mai 2022. Yn ogystal, edrychwyd ar gynnydd yr ysgol wrth gyflawni gofynion un blaenoriaeth yng nghynllun gwella'r ysgol. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau, gan gynnwys ymweliadau ar y cyd â'r pennaeth
- siarad â disgyblion
- cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar waith disgyblion
- craffu ar ddogfennaeth

**Ffocws yr ymweliad**

**Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd mewn meysydd cwricwlaidd eraill**

- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol tuag at fodloni gofynion yr argymhelliad hwn.
- Ers cyflwyno cynllun mathemateg hir dymor newydd yn y blynyddoedd hŷn, maent wedi adnabod cryfderau y dull cynllunio a nodi agweddau sydd angen eu cryfhau ym mhellach. Maent eisoes wedi paratoi camau i ddiwygio eu prosesau cynllunio er mwyn sicrhau nad oes bylchau yn y ddarpariaeth wrth symud ymlaen.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Maent yn adnabod yr angen am hyfforddiant staff mewn agweddau o fathemateg a rhifedd yn gywir ac yn darparu cyfleoedd buddiol i'r staff i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r addysgeg briodol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y staff o'r pump hyfedredd mathemategol yn datblygu'n briodol.
- Mae'r ysgol yn darparu llawlyfr 'dulliau mathemateg' yn flynyddol i staff a rhieni. Golyga hyn fod cysondeb yn y dull yr addysgir mathemateg ym mhob dosbarth a bod gan rhieni ddealltwriaeth gyfredol er mwyn cynorthwyo eu plant adref.
- Mae athrawon yn cyd-gynllunio cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mathemateg mewn cyd-destunau cyfarwydd a byw gan gyfuno sawl Maes Dysgu a Phrofiad yn fedrus. Er enghraifft, mae disgyblion blynyddoedd 3 a 4 yr ysgol yn datblygu yr ardal allanol yn effeithiol gan blannu llwyni a pharatoi gwelyau plannu gan ddefnyddio eu gwybodaeth am sut i fesur pellter, arwynebedd a pherimedr yn fanwl gywir. Mae pob dosbarth yn cymryd rhan mewn prosiectau mentergarwch rheolaidd gan dalu sylw i elw a cholled wrth gynllunio a chreu adnoddau i'w gwerthu.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod gynyddol o fedrau rhif yn gyson mewn sesiynau a gweithgareddau dysgu mathemateg. Ar y cyfan, maent yn eu cymhwyso yn hyderus mewn amryw cyd-destunau.

**Datblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion er mwyn gwella eu medrau llythrennedd**

- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau gwrando a siarad Cymraeg o'u mannau cychwyn yn fedrus. Maent yn rhyngweithio'n llwyddiannus mewn ystod dda o weithgareddau dysgu sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt adeiladu ar eu medrau llafar Cymraeg.
- Wrth i'r disgyblion wella eu medrau llafar, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu gwybodaeth am iaith yn llwyddiannus mewn ystod dda o gyd-destunau. Mae hyn yn ei dro yn cyfrannu'n fwriadus at ddatblygu eu medrau llythrennedd.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn dangos agweddau cadarn at y Gymraeg sy'n cyfrannu'n fuddiol at feithrin eu medrau llafar Cymraeg. Yn gyffredinol, maent yn awyddus i sgwrsio'n y Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol a llai ffurfiol yn ddigymell.
- Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn y ffrwd Gymraeg yn parhau i ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg yn effeithiol. Maent yn ymdrechu'n ddiwyd i ddefnyddio geirfa a phatrymau brawddeg Cymraeg yn gywir. O ganlyniad i gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddwysáu eu gwybodaeth am iaith, maent yn cymhwyso eu medrau llafar yn gynyddol fedrus mewn ystod dda o weithgareddau llythrennedd.
- Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigymell wrth eu dysgu. Maent yn dangos agweddau buddiol at yr iaith gan weld gwerth o'i defnyddio fel rhan o weithgareddau'r ysgol.
- O'u mannau cychwyn, mae llawer o ddisgyblion y ffrwd dwyieithog yn datblygu eu medrau llafar yn briodol, er enghraifft wrth fynegi eu hoff a chas fwydydd. At ei gilydd, mae agweddau y rhan fwyaf o ddisgyblion at ddysgu a defnyddio'r iaith yn dda.
- Gyda chefnogaeth brwd y Criw Cymraeg, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymdrechu i gyfathrebu'n y Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol a llai ffurfiol.

Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at feithrin agweddau cadarnhaol disgyblion at yr iaith Gymraeg.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692379

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol